

Neges diwedd wythnos

17.07.26




Croeso i'n cylchlythyr wythnosol, yma fe welwch chi gipolwg o'r wythnos ynghyd â negeseuon dathlu a dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur.

Presenoldeb

Targed presenoldeb yr ysgol: 95.01%

Presenoldeb yr ysgol: 95.07%



Y Cwestiwn Mawr

Ein cwestiwn mawr am y bythefnos nesaf...

Sut mae yfed dŵr yn helpu i gadw ein cyrff yn oer ar ddiwrnod poeth?

Erthygl 36 – Dylech gael eich diogelu rhag gwneud pethau a allai eich niweidio.




Diwrnod Hwyl Blwyddyn 6

Ddydd Mawrth, cafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod hwylïog arbennig i ddathlu diwedd eu taith yn yr ysgol gynradd. Dechreuodd y diwrnod gyda thaith i Aberdaugleddau i chwarae bowlïo deg pin, lle cafodd pawb lawer o hwyl yn dangos eu sgiliau a chefnogi eu ffrindïau. Wedi hynny, mwynhaodd y plant gŵn yn McDonald's cyn mynd ymlaen i Bluestone am brynhawn o nofïo a sbri yn y dŵr. Talwyd am y diwrnod cyfan gyda'r arian a godwyd gan y disgyblion yn ystod eu prosiect menter Y Cychod Coch yn Ffair Haf yr ysgol. Diolch o galon i Louise James am drefnu'r sesiwn nofïo yn Bluestone ac i Nick Bolwell am y lolïops a helpodd i wneud y diwrnod yn gymaint o lwyddiant. Cafodd pawb amser gwych, ac roedd yn ffordd berffaith i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddathlu eu llwyddiannau a chreu atgofion gwerthfawr cyn symud ymlaen at bennod nesaf eu haddysa.



Hwyl Fawr Miss Jones



Bydd Ysgol Hafan y Môr yn ffarwelio â Miss Jones ar ddiwedd y tymor, ac rydym yn dymuno diolch yn fawr iddi am bopeth y mae wedi'i wneud. Dymunwn y gorau oll iddi ar gyfer y dyfodol a phob llwyddiant yn ei hantur nesaf. Byddwn yn gweld eich eisiau, Miss Jones!

Diolch yn fawr iawn

Wrth inni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol lwyddiannus arall, hoffai holl staff Ysgol Hafan y Môr estyn ein diolch diffuant i'n rhieni a'n teuluoedd am eich cefnogaeth, eich anogaeth a'ch ymrwymiad parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae eich partneriaeth yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd ein hysgol, ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am bopeth a wnewch i gefnogi dysgu, lles a datblygiad eich plant. Gyda'n gilydd, rydym wedi dathlu nifer o lwyddiannau, goresgyn heriau a chreu profiadau ac atgofion arbennig i'n disgyblion. Hoffem hefyd ddiolch i'n disgyblion am eu gwaith caled, eu brwdfrydedd a'u gwytnwch drwy gydol y flwyddyn. Maent wedi bod yn glod i'w hunain, i'w teuluoedd ac i gymuned ein hysgol. Dymunwn haf hapus, diogel ac ymlaciol i'n holl deuluoedd, a gobeithiwn y cewch gyfle i fwynhau treulio amser gwerthfawr gyda'ch gilydd. Edrychwn ymlaen at groesawu ein holl ddisgyblion a'u teuluoedd yn ôl ym mis Medi ar gyfer blwyddyn gyffrous arall o ddysgu a llwyddo.

Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus. Cofiwch gael haf bendigedig!

Wythnos Nesaf

Dydd Llun- 31.08.26	DIM YSGOL
Dydd Mawrth - 01.09.26	HMS - DIM YSGOL I DDISGYBLION
Dydd Mercher - 02.09.26	HMS - DIM YSGOL I DDISGYBLION
Dydd Iau - 03.09.26	Ysgol yn ail agor i bawb.
Dydd Gwener - 04.09.26	

<http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

Please use the link above to view future dates. This is the best way for parents to see dates and what is happening at school.

Absenoldebau

Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen gais am absenoldeb. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant yn absennol.

<https://docs.google.com/forms/d/15ZT3HRC9HMgkVjIrtDvpYQstpfMnPnli4zpoqxGUBSQ/edit>

Meddygaeth

Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen meddygaeth. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant angen meddygaeth yn yr ysgol.

<https://forms.gle/SgryLRHGLaEQp9qm9>

Gwybodaeth Ychwanegol

Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau ysgolion). Sylwch fod y rhain wedi'u diweddarau ac ar galendr gwefan yr ysgol.

<http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

Gwyliau'r Haf 20.07.2026 – 31.08.2026

TYWYDD GARW

Hoffwn atgoffa pob rhiant o'r gweithdrefnau ar gyfer tywydd garw a chau ysgolion. Mae diweddariadau yn ymwneud â chau ysgolion neu rybuddion eraill i'w gweld ar y tudalennau canlynol

www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

Gallwch gofrestru ar gyfer rhybuddion drwy greu eich cyfrif eich hun drwy ddefnyddio'r cyfeiriad gwe canlynol:

<https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

Bydd tudalennau Trydar a Facebook y Cyngor hefyd yn cael eu diweddarau gyda rhybuddion:

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire